

Adroddiad ar gynnydd targedau Cynllun Cydraddoldeb 2025-2026



Yn gyffredinol, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da iawn wrth gyflawni blaenoriaethau a thargedau ei Chynllun Cydraddoldeb. Mae tystiolaeth yn dangos ymrwymiad cryf i sicrhau cydraddoldeb, cynhwysiant a mynediad teg i bob dysgwr, aelod o staff, rhiant, gofalwr ac ymwelydd. Mae cryfderau penodol i'w gweld yn natblygiad y ddarpariaeth ADY, gwelliannau i hygyrchedd y safle, hyrwyddo llais y dysgwr, a'r modd y mae'r cwricwlwm yn adlewyrchu amrywiaeth gymdeithasol, ddiwylliannol a chrefyddol cymdeithas gyfoes. Ar yr un pryd, mae'r ysgol wedi adnabod meysydd clir ar gyfer datblygiad pellach, yn arbennig gwella presenoldeb rhai grwpiau bregus a chynyddu eu hymgysylltiad â gweithgareddau allgyrsiol.

Presenoldeb

Er bod yr ysgol yn gweithio'n rhagweithiol gyda theuluoedd, mae presenoldeb dysgwyr PYDd yn gyffredinol yn is na phresenoldeb dysgwyr nad ydynt yn gymwys am PYDd. Mae patrwm tebyg i'w weld ymhlith rhai dysgwyr ag ADY. Mae hyn yn awgrymu bod angen parhau i flaenoriaethu strategaethau presenoldeb a gweithio mewn partneriaeth agos â rhieni a'r AALI er mwyn lleihau'r bwlch rhwng grwpiau.

Cyfranogiad mewn Clybiau a Gweithgareddau

Mae'r ysgol yn cynnig mynediad am ddim i'r clwb gofalu i ddysgwyr PYDd. Er hynny, mae cyfranogiad y grŵp hwn yn y clwb gofalu, y clwb brecwast a gweithgareddau allgyrsiol yn parhau'n isel. Bydd angen archwilio ymhellach y rhesymau dros hyn a chynllunio ymyriadau penodol i gynyddu cyfranogiad.

Ar y llaw arall, mae bron pob dysgwr PYDd ac y rhan fwyaf o ddysgwyr ADY yn manteisio ar ymweliadau addysgol. Mae cefnogaeth ariannol yr ysgol a'r cynllunio unigol ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymhleth wedi sicrhau cyfleoedd teg i gymryd rhan mewn profiadau cyfoethogi.

Datblygu'r Amgylchedd a Hygyrchedd

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran hygyrchedd a darpariaeth ADY. Mae Canolfan Iago wedi agor ac mae bellach yn darparu darpariaeth arbenigol i ddysgwyr ag anghenion dysgu dwys. Mae'r gwaith o ddatblygu ystafell newid hygyrch a thoiled anabl wedi'i gwblhau, gan gryfhau ymhellach allu'r ysgol i ddiwallu anghenion ystod ehangach o ddysgwyr.

Mae'r rhan fwyaf o gyfleusterau'r ysgol yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, ac mae llwybrau amgen ar gael lle bo grisiau yn cyfyngu ar fynediad. Mae hyn yn dangos cynnydd da tuag at nod y cynllun o leihau rhwystrau ffisegol i ddysgwyr ac ymwelwyr ag anableddau.

Cwricwlwm a Hyrwyddo Cydraddoldeb

Mae'r ysgol wedi parhau i ddarparu cwricwlwm sy'n adlewyrchu amrywiaeth yr ysgol, Cymru a'r byd ehangach. Trwy CGM, ACRh, gwasanaethau ac amrywiaeth o weithgareddau eraill, mae dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth o wahanol ddiwylliannau, credoau a safbwyntiau. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu parch, empathi a chynhwysiant.

Llais y Dysgwr

Mae'r ysgol wedi sicrhau cyfleoedd helaeth i ddisgyblion gyfrannu at fywyd yr ysgol. Trwy'r Cyngor Ysgol, Cyngor Eco, Criw Cymreictod, Criw Digidol, Criw Buarth a Chriw Ffreutur, mae bron pob disgybl yn cael rôl weithredol. Mae holiaduron rheolaidd hefyd yn sicrhau bod safbwyntiau dysgwyr yn llywio gwaith yr ysgol.

Ymgysylltu â Rhieni

Mae lefelau ymgysylltu rhieni â'r nosweithiau rhieni ffurfiol yn dda ar draws pob grŵp o ddysgwyr. Mae'r ysgol yn dangos sensitifrwydd i amgylchiadau teuluol unigol, gan gynnwys trefniadau ar wahân ar gyfer rhieni sydd wedi gwahanu. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad yr ysgol i degwch a chynhwysiant.

Ymddygiad a Gwrth-fwllo

Mae ymddygiad dysgwyr yn dda ar y cyfan ac mae gweithdrefnau clir ar waith ar gyfer delio â bwllo ac ymddygiad heriol. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o strategaethau ac yn gweithio'n agos gyda rhieni i gefnogi dysgwyr ac i leihau'r angen am waharddiadau.

Targed 1: Datblygu Darpariaeth a Chymorth i Ddysgwyr ag ADY

Mae cynnydd cryf wedi'i wneud wrth ddatblygu darpariaeth i ddysgwyr ag ADY. Mae strwythur staffio'r ysgol bellach yn galluogi bron pob dysgwr ADY a PYDd i gael mynediad at gymorth dosbarth a rhaglenni ymyrraeth pwrpasol. Yn ogystal, mae'r ysgol wedi parhau i uwchsgilio staff drwy hyfforddiant mewn meysydd megis WellComm, Language Link, dyslecsia ac asesu medrau darllen. Mae hyn wedi cynyddu gallu staff i ymateb yn effeithiol i anghenion dysgwyr a darparu cymorth wedi'i deilwra.

Datblygiad arwyddocaol oedd agoriad Canolfan Iago ym Medi 2025, sy'n darparu darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu dwys. Er bod y ddarpariaeth yn gymharol newydd, mae'r ysgol wedi dechrau rhaglen systematig o ddatblygu staff er mwyn sicrhau bod yr arbenigedd angenrheidiol ar gael i ddiwallu anghenion y dysgwyr hyn yn llawn.

Targed 2: Gwella Hygyrchedd a Mynediad i'r Amgylchedd

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at wella hygyrchedd y safle. Trwy gydweithio effeithiol â'r AALI ac asiantaethau arbenigol, mae toiled hygyrch ac ystafell newid bwrpasol wedi'u datblygu ar gyfer defnydd dysgwyr yr ysgol a dysgwyr Canolfan Iago. Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd yr ysgol yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, ac mae trefniadau priodol ar waith i sicrhau mynediad at weithgareddau allgyrsiol a phrofiadau cwricwlaidd, gan gynnwys gwersi nofio.

Er gwaethaf newid yn nhîm cefnogi anghenion corfforol yr ysgol, mae ansawdd y ddarpariaeth wedi'i gynnal ac mae cydweithio ag arbenigwyr ieuchyd ac awdurdod lleol wedi sicrhau parhad yn y gefnogaeth a gynigir i ddysgwyr. Fodd bynnag, mae sicrhau mynediad cwbl hygyrch i bob rhan o Ganolfan Iago yn parhau'n flaenoriaeth ar gyfer y cyfnod nesaf.

Targed 3: Hyrwyddo Cydraddoldeb ac Amrywiaeth drwy'r Cwricwlwm

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth gryfhau elfennau cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn ei chwricwlwm. Mae calendr addoli ar y cyd yr ysgol wedi'i ddiwygio er mwyn sicrhau cyfleoedd cyson i ddysgwyr ddysgu am ystod ehangach o greddau a thraddodiadau crefyddol. Mae cyfranogiad staff mewn gweithgoreu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Clwstwr Gŵyr wedi cyfrannu at ddatblygu darpariaeth gyson a chynhwysol.

Yn ogystal, mae'r ysgol wedi dechrau adolygu cynnwys ei chwricwlwm i sicrhau bod materion yn ymwneud ag amrywiaeth, hawliau dynol, LGBTQ+, a chyfraniadau a hanesion pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu hadlewyrchu'n briodol. Mae hyn wedi ehangu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu empathi, parch a dealltwriaeth o gymdeithas amrywiol gyfoes.

Targed 4: Hyrwyddo Cyfle Cyfartal

Mae'r ysgol wedi parhau i gymryd camau pendant i sicrhau nad yw amgylchiadau economaidd nac anghenion ychwanegol yn creu rhwystrau i gyfranogiad. Mae'r Corff Llywodraethu yn adolygu'r Polisi Codi Tâl yn rheolaidd, ac mae ystod eang o gymorth ariannol ar gael i ddysgwyr sy'n gymwys am PYDd. Mae hyn yn cynnwys gwersi offerynnol am ddim, gostyngiadau ar ymweliadau preswyl, cymorth gyda chostau ymweliadau addysgol a mynediad at glwb cyn-brecwast a byr-brydau am ddim.

Mae'r cymorth hwn wedi cyfrannu at sicrhau bod bron pob dysgwr PYDd yn gallu manteisio ar ystod eang o gyfleoedd addysgol. Yn benodol, mae bron pob dysgwr PYDd

a'r rhan fwyaf o ddysgwyr ADY yn cymryd rhan mewn ymweliadau addysgol, gan elwa ar brofiadau dysgu cyfoethogi gwerthfawr.

Meysydd Cryfder

Mae'r ysgol wedi dangos cryfder arbennig yn y meysydd canlynol:

- Datblygu a sefydlu Canolfan Iago fel darpariaeth arbenigol newydd.
- Gwellu hygyrchedd y safle drwy ddatblygu cyfleusterau newydd.
- Darparu cymorth effeithiol i ddysgwyr ag ADY a PYDd.
- Sicrhau bod bron pob dysgwr PYDd ac ADY yn cymryd rhan mewn ymweliadau addysgol.
- Hyrwyddo llais y dysgwr drwy ystod eang o grwpiau arweinyddiaeth.
- Datblygu cwricwlwm sy'n adlewyrchu amrywiaeth ac yn hyrwyddo parch a chynhwysiant.
- Cynnal perthynas gadarnhaol â rhieni a gofalwyr a sicrhau cyfathrebu cynhwysol.

Blaenoriaethau ar gyfer Datblygiad Pellach

Er gwaethaf y cynnydd cadarnhaol, mae nifer o feysydd yn parhau'n flaenoriaeth:

- Gwellu presenoldeb dysgwyr PYDd a rhai dysgwyr ADY.
- Cynyddu cyfranogiad grwpiau bregus mewn clybiau brecwast, clybiau gofalu a gweithgareddau allgyrsiol.
- Parhau i ddatblygu arbenigedd staff wrth gefnogi anghenion cynyddol gymhleth dysgwyr.
- Datblygu hygyrchedd pellach o fewn Canolfan Iago a rhannau eraill o'r safle lle bo angen.
- Parhau i ddatblygu a chyfoethogi'r cwricwlwm i sicrhau cynrychiolaeth ehangach o gymunedau a phrofiadau amrywiol.

Casgliad

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyflawni amcanion ei Chynllun Cydraddoldeb ac wedi dangos ymrwymiad cryf i sicrhau bod pob aelod o gymuned yr ysgol yn cael ei werthfawrogi, ei barchu a'i gefnogi. Mae'r datblygiadau a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod hwn wedi cryfhau gallu'r ysgol i ddarparu amgylchedd cynhwysol lle mae pob dysgwr yn cael cyfle cyfartal i lwyddo. Gyda ffocws parhaus ar bresenoldeb, cyfranogiad, hygyrchedd a datblygiad staff, mae'r ysgol mewn sefyllfa gref i adeiladu ymhellach ar ei llwyddiannau yn y blynyddoedd sydd i ddod.